

Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc

Adroddiad terfynol

24 Mawrth 2021

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Pwyllgor hwn adroddiad interim yn amlinellu ein canfyddiadau mewn perthynas ag effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys myfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch. Naw mis yn ddiweddarach, wrth inni agosáu at etholiad y Senedd, daw ein hamser fel Pwyllgor i ben.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ein casgliadau am y camau sydd eu hangen nawr ac yn y dyfodol i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc. Mae'n seiliedig ar ein gwaith craffu COVID-19 a'r gwaith craffu ehangach rydym wedi'i wneud ar draws ein portffolio dros y pum mlynedd diwethaf. Ei nod yw helpu i lywio gwaith ein Pwyllgor olynol, a Llywodraeth nesaf Cymru.

Cyflwyniad

1. Fel mater o drefn, cyn un o etholiadau'r Senedd, mae'r rhan fwyaf o bwyllgorau yn dod â'u gwaith i ben gydag adroddiad gwaddol. I ni, mae effaith pandemig COVID-19 wedi arwain at gamau gweithredu gwahanol ar gyfer ein cyhoeddiad olaf yn y Pumed Senedd.
2. Fel Pwyllgor, ers mis Mawrth y llynedd, rydym wedi blaenoriaethu ein gwaith craffu ar effaith y pandemig ar ein plant a'n pobl ifanc. Wrth i ni agosáu at ddiwedd ein tymor, ac un flwyddyn ers i gyfyngiadau symud gael eu cyflwyno am



y tro cyntaf, mae ceisio lliniaru effaith COVID-19 ar ein plant a'n pobl ifanc wedi parhau i fod yn brif flaenoriaeth inni. Rydym yn cydnabod ei bod yn ymddangos bod COVID-19 yn effeithio llai ar blant a phobl ifanc nag oedolion, yn ffodus, ond er hynny, nid oes fawr o amheuaeth bod effeithiau ehangach y pandemig—a'r mesurau a gymerwyd i'w reoli—wedi effeithio cryn dipyn ar eu bywydau a'u hawliau.

3. I'r perwyl hwnnw, mae ein hwythnosau olaf o waith craffu, a hwn, ein hadroddiad terfynol, wedi canolbwyntio ar yr adferiad yn dilyn COVID-19 i'n plant a'n pobl ifanc. Serch hynny, mae COVID-19 wedi effeithio ar bob maes polisi a deddfwriaeth yr ydym wedi'i ystyried yn ystod y Senedd hon. Yn hynny o beth, nod yr adroddiad hwn yw defnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu dros y pum mlynedd diwethaf, yn ogystal â'n craffu ar y gwaith o reoli COVID-19, i wneud cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru a'n Pwyllgor olynol eu defnyddio yn y nesaf Senedd.

Ein canfyddiadau allweddol

4. Rydym wedi grwpio ein canfyddiadau allweddol yn bum maes cyffredinol:

- 1.** Materion trawsbynciol
- 2.** Addysg statudol
- 3.** Iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- 4.** Addysg bellach ac addysg uwch
- 5.** Plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed

5. Mae'r canfyddiadau allweddol hyn, a'r meysydd rydym wedi canolbwyntio ein hargymhellion arnynt, yn ceisio nodi'r materion y dylid eu blaenoriaethu yn ein barn ni. Mae'r dyfarniadau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom ac maent yn cydnabod yr angen i fod yn ystyriol o'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym wedi ceisio tynnu sylw at yr hyn y credwn yw'r meysydd mwyaf hanfodol y mae angen gweithredu yn eu cylch.

6. Rydym hefyd yn cydnabod yr effeithiwyd ar blant a phobl ifanc mewn sawl ffordd arall y tu hwnt i'r rhai rydym yn eu trafod yn yr adroddiad hwn. Effeithiwyd ar sectorau eraill hefyd, gan gynnwys gofal plant, chwarae, gwasanaethau ieuencid, a chymorth i deuluoedd. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd hyn hefyd yn rhan o waith craffu ein Pwyllgor olynol, ac ym mlaenoriaethau Llywodraeth nesaf Cymru.

7. Lle bo'n briodol ac yn berthnasol, rydym wedi defnyddio gwaith ymchwiliadau ac argymhellion o'r cyfnod cyn COVID-19 i lywio'r adroddiad hwn.

Sut y gwnaethom gasglu tystiolaeth

8. Rydym wedi cynnal sesiynau tystiolaeth lafar cyhoeddus gyda rhanddeiliaid ar draws y sector. Mae ymgyngoriad hefyd wedi bod ar agor drwy gydol y pandemig i sicrhau bod plant, pobl ifanc, rhieni, gweithwyr proffesiynol, ac unrhyw rai eraill a oedd am rannu eu profiadau gyda ni, yn gallu rhannu eu barn i lywio ein gwaith.

9. Rydym hefyd wedi gwneud ymdrech i estyn allan at y rhai nad ydynt bob amser yn cael llais mewn gwaith o'r math hwn. Rydym wedi gwneud hyn drwy gyfres o weithgareddau ymgysylltu a ddefnyddiwyd i lywio ein gwaith o holi tystion yn ystod ein gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf.

10. Mae manylion y prif themâu sy'n codi yn y dystiolaeth ysgrifenedig, a'n gweithgarwch ymgysylltu, yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

11. Dylid darllen ein hadroddiad terfynol ar y cyd â'n hadroddiad interim, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020. Dylid ei ystyried hefyd ochr yn ochr â'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22, a wnaeth nifer o argymhellion allweddol i Lywodraeth Cymru a'n Pwyllgor olynol.

12. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith yn ystod y Senedd hon. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i ni yn ystod y pandemig, ac yn pwysleisio ein diolchgarwch i'r miloedd o weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr sydd wedi cefnogi ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y flwyddyn heriol hon.

1. Materion trawsbynciol

13. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni am effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc yn dangos bod rhai o'r heriau a'r cyfleoedd sydd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig yn gyffredin ar draws gwahanol feysydd o'n portffolio.

14. Gan ddefnyddio ein hymchwiliadau o'r cyfnod cyn COVID-19 yn ogystal â'r dystiolaeth a gawsom ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, rydym wedi ymrwymo o hyd i:

- flaenoriaethu lles ein plant a'n pobl ifanc,
- tynnu sylw at eu hawliau, a
- sicrhau bod ganddynt lais.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth nesaf Cymru a'n Pwyllgor olynol yn parhau i ganolbwyntio'n agos ar y meysydd a ganlyn:

- **Llesiant ac addysg:** Rhaid i lesiant ac addysg ein plant a'n pobl ifanc fod yn ganolog i'r holl waith cynllunio ar gyfer adferiad fel mater o flaenoriaeth.
- **Camau cadarnhaol ymlaen:** Mae cydnabod effaith COVID-19 ar ein plant a'n pobl ifanc, a sut mae wedi tarfu ar eu bywydau, yn hanfodol. Ond mae cydbwysedd pwysig i'w daro rhwng cydnabod hyn a mynd i'r afael â'r mater, a hyrwyddo negeseuon llawer mwy cadarnhaol am wytnwch plant a phobl ifanc a'u cyfleoedd at y dyfodol. Rhaid defnyddio naratif ac iaith arall fel mater o flaenoriaeth, yn hytrach na sôn am "golli cyfleoedd dysgu" a'r angen i "ddal i fyny".
- **Cynlluniau wrth gefn:** Rhaid i'r gwaith o baratoi ac o sicrhau adnoddau ar gyfer yr ymateb i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc drwy unrhyw darfu pellach o ganlyniad i COVID-19 fod yn flaenoriaeth, ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus.
- **Hawliau a llais plant:** Rhaid mabwysiadu dull hawliau plant o ymdrin â phob penderfyniad, ar draws pob sector, fel mater o flaenoriaeth, a rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau glywed lleisiau plant a phobl ifanc i helpu i lywio'r broses adfer.

2. Addysg statudol

15. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwaith craffu ar effaith addysgol pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc wedi canolbwyntio ar yr ymdrech bresennol a thymor byr i ailagor ysgolion, ansawdd y ddarpariaeth addysg o bell tra'u bod wedi cau, a'r her yn y tymor hwy o sicrhau adferiad ar ôl y tarfu sylweddol ar addysg. Wrth wneud hynny, rydym wedi defnyddio ein gwaith craffu ar faterion addysg yn ystod y Senedd hon, megis cyllido ysgolion, yr agenda safonau, anghydraddoldeb o ran canlyniadau addysgol, a disgyblion sy'n agored i niwed.

16. Fel rhan o'n galwad dreigl am dystiolaeth ysgrifenedig a'n rhaglen o sesiynau tystiolaeth lafar, clywsom gan Weinidogion, undebau addysgu, cynrychiolwyr ysgolion a llywodraeth leol, Comisiynydd Plant Cymru, Estyn, arbenigwyr addysgol eraill, a rhieni a theuluoedd. Edrychodd ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 hefyd yn fanwl ar oblygiadau ariannol COVID-19, ac anghenion ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth nesaf Cymru a'r Pwyllgor olynol yn parhau i ganolbwyntio'n agos ar effaith barhaus COVID-19 a'r her hirdymor sy'n wynebu ein system addysg, gan roi sylw arbennig i'r meysydd a ganlyn:

- **Seilwaith adfer:** Rhoi'r seilwaith ar waith ar gyfer yr adferiad tymor canolig i dymor hir yn dilyn y tarfu ar addysg o ganlyniad i COVID-19 a'r goblygiadau ar gyfer y gwaith pellach sydd ei angen i wella ysgolion a sicrhau cydraddoldeb o ran canlyniadau. Mae sicrhau bod digon o'r bobl addas mewn swyddi yn allweddol i hyn, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod pob rhan o'r system addysg yn cael yr effaith fwyaf bosibl, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.
- **Cynlluniau wrth gefn ar gyfer addysg:** Paratoi ar gyfer yr ymateb i unrhyw darfu pellach o ganlyniad i COVID-19, gan gynnwys unrhyw angen yn y dyfodol am addysgu o bell, dysgu gwersi o'r deuddeg mis diwethaf e.e. o ran allgau digidol (gan gynnwys materion yn ymwneud â chysylltedd), profiadau amrywiol dysgwyr, effaith ar sgiliau Cymraeg disgyblion o gartrefi di-Gymraeg, a phwysigrwydd ymgysylltu â rhieni.
- **Cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr dan anfantais:** Cefnogi cynnydd a chanlyniadau addysgol ymhlith y grwpiau hyn, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, plant o aelwydydd incwm isel eraill, y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gofawyr ifanc, plant sydd wedi bod mewn gofal, a dysgwyr mewn Unedau

Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol eraill. Dylid ategu hyn drwy gasglu a chyhoeddi data presenoldeb wedi'u dadgyfuno ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion yn ystod y pandemig er mwyn nodi unrhyw newidiadau penodol.

- **Dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant:** Darparu dull ysgol gyfan a system gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr, yn dilyn ein hadroddiadau ar gyfer ymchwiliad 'Cadernid Meddwl'.
- **Cyllido ysgolion:** Cyflawni argymhellion ein hymchwiliad i gyllido ysgolion ac Adolygiad Sibieta a gynhaliwyd ar ôl hynny, er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer ysgolion a'i fod yn cael ei ddsbarthu'n effeithiol.
- **Cymwysterau:** Monitro'r broses o ddyfarnu cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yn 2021 a 2022, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng cynnal hyder y cyhoedd o ran hygreddedd cymwysterau a sicrhau tegwch i garfannau yr effeithiwyd arnynt gan y tarfu o ganlyniad i COVID-19.
- **Diwygio deddfwriaethol mawr a phwysau sy'n cystadlu:** Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i reoli effaith COVID-19 ochr yn ochr â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 o fis Medi 2021 a Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (yn amodol ar Gydsyniad Brenhinol) o fis Medi 2022.

3. Iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

17. Cawsom dystiolaeth gan amrywiaeth o arbenigwyr am effaith y pandemig ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc. Er bod plant a phobl ifanc yn llai agored i salwch corfforol o ganlyniad i COVID-19 yn ôl pob golwg, clywsom bryderon cynyddol am effaith y sefyllfa barhaus o ran y pandemig ar les meddyliol pobl ifanc.

18. Dywedwyd wrthym fod hyn i raddau helaeth oherwydd nad yw eu gweithgareddau, gwasanaethau, a chyfleoedd arferol ar gael iddynt. Clywsom hefyd nad yw'r pandemig wedi effeithio ar bobl ifanc yn gyfartal, a'u bod yn wynebu effeithiau gwahanol yn seiliedig ar eu grŵp oedran, cefndir economaidd a statws iechyd.

Fel y nodwyd yn adran 1, ein neges allweddol yw bod yn rhaid i les plant a phobl ifanc fod yn ganolog i gynlluniau ar gyfer adferiad. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth nesaf Cymru a'r Pwyllgor olynol yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r canlynol:

- **Ymarfer corff:** Cynyddu cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff i blant a phobl ifanc, mewn cymunedau ac o fewn ysgolion, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y manteision corfforol ac iechyd meddwl o ymarfer corff a chwarae. Dylid agor cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored cyn gynted â phosibl, a dim ond os yw'n gwbl hanfodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth glir y dylid cyflwyno cyfyngiadau pellach.
- **Cynaliadwyedd y gweithlu:** Mynd i'r afael â'r problemau recriwtio a chadw yn y gweithlu iechyd (corfforol a meddyliol) plant, a sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac Addysg a Gwellu Iechyd Cymru yn edrych yn strategol ac yn greadigol ar sut y defnyddir y gweithlu hwn a'r setiau sgiliau sydd eu hangen. Dylai hyn gynnwys ystyried rolau sy'n llenwi'r bylchau rhwng gwasanaethau (er enghraifft rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd a rhwng arbenigeddau).
- **Tlodi:** Dangos cydnabyddiaeth glir o'r cysylltiad cryf rhwng tlodi, salwch meddwl a hunanladdiad, cymryd camau brys i fynd i'r afael ag effeithiau economaidd y pandemig ar les meddyliol plant a phobl ifanc, a lliniaru yn erbyn cynnydd posibl mewn hunanladdiad. Yn gysylltiedig â hyn, mae angen gwneud rhagor o waith brys i archwilio'r potensial ar gyfer ymestyn

addysg a hyfforddiant statudol y tu hwnt i 16 oed, er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol at leihau tlodi a'r cysylltiadau cysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl i bobl ifanc, gan gynnwys hunanladdiad ymhlith pobl ifanc.

- **Ceisio cymorth:** Cyfleu pa mor bwysig yw ceisio cyngor amserol er mwyn osgoi oedi o ran cael diagnosis a'r driniaeth sydd ei hangen. Sicrhau bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn ymwybodol bod gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol plant ar agor, a gwybodaeth glir ar gael am wasanaethau a chymorth.
- **Seilwaith digidol:** Mynd i'r afael â'r 'bwlch digidol', er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ledled Cymru fynediad teg at wasanaethau teleiechyd, a sicrhau bod seilwaith TGCh GIG Cymru yn addas i'r diben ac yn gallu cefnogi ffyrdd effeithiol o ddarparu gwasanaethau o bell.
- **Cadernid Meddwl:** Parhau i weithredu argymhellion ein hadroddiadau gwreiddiol a dilynol sydd, yng nhgyd-destun y pandemig, yn fwy perthnasol nag erioed.
- **Hunan-niweidio a hunanladdiad:** Sicrhau bod gwasanaethau addas ar gael, nawr yn fwy nag erioed, i nodi a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n wynebu argyfwng. Mabwysiadu dull cadarn a systematig o ddeall effaith COVID-19 ar lefelau hunan-niweidio, meddyliau hunanladdol, a hunanladdiad ymhlith plant a phobl ifanc, er mwyn cymryd camau lliniaru a sicrhau bod cymorth priodol ar gael.

4. Addysg bellach ac addysg uwch

19. Mae archwilio barn dysgwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach, o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys y rhai ag amgylchiadau heriol neu'r rhai y mae'r pandemig wedi effeithio'n andwyol arnynt, wedi bod yn flaenoriaeth i ni. Roeddem am sicrhau bod gan fyfyrwyr lais, ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl ddysgwyr hynny a oedd yn barod i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gennym.

20. Rydym yn cyflwyno'r safbwyntiau a gasglwyd gennym i'r sector addysg uwch ac addysg bellach, gan gynnwys Penaethiaid colegau addysg bellach a chynrychiolwyr prifysgolion. Clywsom dystiolaeth hefyd gan Gymwysterau Cymru ar yr heriau sy'n gysylltiedig â chymwysterau galwedigaethol yn y pandemig, a gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Yn seiliedig ar yr hyn a glywsom, rydym yn argymhell bod Llywodraeth nesaf Cymru a'r Pwyllgor olynol yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r canlynol:

- **Iechyd meddwl a lles myfyrwyr:** sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol ac yn diwallu anghenion penodol pob dysgwr. Rhaid i'r ddarpariaeth iechyd meddwl fod yn fwy cyson rhwng addysg cyn 16 oed ac ar ôl 16 oed, ac ar draws gwahanol ddarparwyr, er mwyn hwyluso'r broses i ddysgwyr pan fyddant yn trosglwyddo o'r naill i'r llall.
- **Cymorth ar gyfer dysgu:** Sicrhau bod dysgwyr a myfyrwyr sydd wedi profi bylchau yn eu dysgu oherwydd y pandemig yn cael eu cefnogi. Yn benodol, fel ei rheoleiddiwr a'i phrif gyllidwr, rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r cyllid a'r hyblygrwydd y bydd eu hangen ar y sector addysg bellach dros y blynyddoedd i ddod i helpu dysgwyr i oresgyn y tarfu y maent wedi'i wynebu ar ôl iddynt bontio o'r ysgol a/neu cyn iddynt symud ymlaen y tu hwnt i addysg bellach.
- **Paratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith:** Cefnogi a galluogi profiadau, lleoliadau a chyfleoedd ehangach i ddatblygu sgiliau bywyd sydd nid yn unig yn cyfoethogi bywydau dysgwyr a myfyrwyr unigol, ond sydd hefyd yn cynnig cyfleoedd pwysig i'w paratoi ar gyfer byd gwaith, ac i wella eu sefyllfa mewn bywyd.
- **Dysgu galwedigaethol ac academaidd:** Parhau i weithio tuag at sicrhau "parch cydradd" rhwng dysgu galwedigaethol ac academaidd, a chyflwyno'r newidiadau beiddgar sy'n debygol o fod yn ofynnol i gyflawni hyn.

- **Cyllid pwysau'r pandemig:** Dysgu—a monitro'r canlyniadau—o'r ymyriadau ariannu sylweddol a wnaed yn y ddau sector o ganlyniad i bwysau'r pandemig. Mae angen rhoi sylw arbennig i effaith y cyllid ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed, a'r rhai y mae'r pandemig yn fwy tebygol o fod wedi effeithio arnynt. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi creu cyfleoedd i ddeall a nodi dulliau arloesol ac i rannu'r gwersi a ddysgwyd ar draws y sector addysg.
- **Addysg bellach ac addysg uwch fel asedau yn adferiad cyffredinol Cymru:** Mynd ati i ariannu a rhoi'r sectorau addysg bellach ac uwch mewn sefyllfa i gyflawni eu potensial i chwarae rhan hanfodol yn adferiad Cymru a'i phobl ar ôl COVID-19. Mae gan sector addysg ôl-16, sy'n werth biliynau o bunnoedd ac a all drawsnewid cyfleoedd bywyd bron i 300,000 o ddysgwyr bob blwyddyn, ac sy'n ymwneud â chymaint o'r gweithgarwch sy'n sbarduno ffyniant, rôl enfawr i'w chwarae yn ein hadferiad. Rhaid manteisio i'r eithaf ar yr ased enfawr hwn i Gymru. Dylai unrhyw ddiwygiad i'r system addysg drydyddol yn y dyfodol ystyried hyn.
- **Dysgu digidol a chyfunol:** Deall, rhannu a harneisio manteision dysgu digidol a chyfunol ar draws y sector addysg ôl-16. Er bod dysgu cyfunol a digidol wedi cyflwyno heriau sylweddol i sefydliadau ac i ddysgwyr, mae ganddo hefyd gryn botensial i wella profiad dysgu a chanlyniadau addysgol dysgwyr os cânt eu defnyddio'n briodol. Mae'r ymateb i'r pandemig wedi tarfu'n fawr, ond mae cyfle digyngsail hefyd i lansio rhaglen strwythuredig ar draws y sector i ddysgu o'r profiad, i wella dysgu, ac i wella sgiliau digidol pobl Cymru.

5. Plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed

21. Mae cymorth i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ac sydd â phrofiad o ofal yn themâu allweddol sy'n rhedeg drwy nifer o adroddiadau ac ymchwiliadau ein Pwyllgor, gan gynnwys gwasanaethau eirioli statudol, cymorth iechyd meddwl, y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal a phlant mabwysiedig, a golwg manwl ar gyllid ar gyfer plant â phrofiad o ofal yn y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21. Rydym hefyd wedi defnyddio gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Blant a Phobl Ifanc Sydd Wedi bod Mewn Gofal.

22. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwaith craffu ar oblygiadau pandemig COVID-19 ar gyfer plant a phobl ifanc wedi rhoi cryn sylw i'w effaith ar ddiogelu plant, a'r cymorth a roddir i blant mewn gofal a'r rhai sydd wedi bod mewn gofal.

23. Fel rhan o'n galwad dreigl am dystiolaeth ysgrifenedig a'n rhaglen o sesiynau tystiolaeth lafar, clywsom gan Weinidogion, cynrychiolwyr llywodraeth leol, cynrychiolwyr darparwyr a'r trydydd sector/cyrff anllywodraethol, a Chomisiynydd Plant Cymru. Clywsom hefyd yn uniongyrchol gan y bobl ifanc yr effeithiwyd arnynt, a hwyluswyd gan Voices from Care.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth nesaf Cymru a'r Pwyllgor olynol yn parhau i ganolbwyntio'n agos ar effaith barhaus COVID-19 ar blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, gan gynnwys canolbwyntio ar y meysydd a ganlyn:

- **Diogelu:** Parhau i fonitro lefelau atgyfeiriadau diogelu a nifer y plant y mae angen gofal a chymorth arnynt, gan gynnwys ymateb i unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r pandemig (e.e. oherwydd tlodi, esgeulustod, neu drais domestig).
- **Cymorth i deuluoedd:** Monitro a chefnogi effeithiolrwydd gwasanaethau a dulliau o gefnogi teuluoedd ac atal plant rhag dod i mewn i'r system ofal, gan gynnwys monitro nifer y plant sydd wedi bod mewn gofal yng nghydestun y nodau i leihau'r niferoedd hyn mewn modd diogel. Datblygu strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er enghraifft y gwaith o ddatblygu Llys Cyffuriau ac Alcohol peilot i Deuluoedd yng Nghymru, a chanfyddiadau ymchwil Arsyllfa Cyfiawnder Teulu Nuffield yng Nghymru.
- **Rhianta corfforaethol:** Rhoi sylw penodol i'r cymorth rhianta corfforaethol i blant sydd wedi bod mewn gofal, gan ganolbwyntio'n benodol ar weithio ar draws portffolios Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r angen am gymorth

ymlith plant sydd wedi bod mewn gofal gyda'u haddysg a'u hiechyd meddwl.

- **Y rhai sy'n gadael gofal:** Cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a monitro effaith economaidd y pandemig ar y grŵp hwn o bobl ifanc.
- **Babanod a'r blynyddoedd cynnar:** Sicrhau bod y plant ieuengaf yn ein cymdeithas, ac iechyd meddwl amenedigol eu rhieni a'u gofalwyr, yn cael eu cefnogi a'u blaenoriaethu fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer adferiad.
- **Plant sydd wedi bod mewn gofal:** Adolygu a chofnodi prif effeithiau COVID-19 sy'n benodol i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, gyda'r nod o sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael sylw cyflym. Dylai hyn gynnwys ystyried:
 - gofal preswyl (gan gynnwys y rhai mewn cartrefi awdurdodau lleol, cartrefi annibynnol a chartrefi heb eu rheoleiddio),
 - mynediad at ddarpariaeth eiriolaeth, ac
 - i ba raddau y mae plant yn cael cyswllt ystyrlon a phriodol â ffrindiau a theulu.

Dylai fod gan Lywodraeth Cymru fecanwaith priodol ac effeithiol i gyd-gynhyrchu ei dull o ymdrin â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, a'r sector sy'n eu cefnogi, mewn ffordd y gellir ei darparu'n gyflym i wella canlyniadau i blant.

ATODIAD

Crynodeb o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cynhaliwyd ymgynghoriad y Pwyllgor rhwng 28 Ebrill 2020 ac 11 Mawrth 2021. Cyflwynwyd 202 o ymatebion. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion, a gynhrychwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd, ym mis Mawrth 2021.

- [Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad – Mawrth 2021](#)

Nodiadau gweithgareddau ymgysylltu

Yn ogystal â chasglu tystiolaeth yn ffurfiol, gofynnodd y Pwyllgor am farn y cyhoedd drwy weithgareddau ymgysylltu. Cyhoeddir nodiadau cryno o'r gweithgareddau hyn:

- [Craffu ar COVID-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig - Crynodeb 1 – 4 Mehefin 2020](#)
- [Craffu ar COVID-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig - Crynodeb 2 – 2 Gorffennaf 2020](#)
- [Craffu ar COVID-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc yng Nghymru - Crynodeb 3 – 23 Tachwedd 2020](#)
- [Craffu ar COVID-19 a'i effaith ar fyfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch - Crynodeb 4 - 2 Mawrth 2021](#)

Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd [drafodaeth rithwir gyda phobl ifanc a staff o Voices from Care](#), i glywed am y pandemig o safbwynt profiadau plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.